



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Lewyrchus

- 1: Caffael teg a lleol:** defnyddio caffael i hybu twf cynhwysol
- 2: Gwaith teilwng:** sbarduno arferion sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy sicrhau gwaith gweddus
- 3: Economiâu lleol:** cynorthwyo economïau lleol cynhwysol a'r economi sylfaenol
- 4: Ynni cymunedol a chymdeithas garbon isel:** galluogi sefydliadau a chymunedau i leihau allyriadau a defnyddio ynni carbon isel
- 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol:** annog sefydliadau i ddatblygu poblogaeth fedrus, addas ar gyfer newidiadau technolegol y dyfodol





Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Lewyrchus

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

“Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac sy’n cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith gweddus”.



Diffinio'r nod

Mae 50 mlynedd wedi mynd heibio ers i Robert Kennedy draddodi ei anerchiad hanesyddol pan hawliodd fod Cynnyrch Domestig Gros yn mesur 'popeth heblaw'r hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw'.

Er gwaethaf hynny, mae Cynnyrch Domestig Gros wedi parhau i fod o'r pwys pennaf i'r cyhoedd a gwneuthurwyr polisi fel y dull critigol o fesur cynnydd. Tra bo'r ffocws traddodiadol hwn ar dwf economaidd wedi llunio'r byd yr ydym yn ei adnabod heddiw, mae wedi gadael llawer o bobl ar ôl. Mae 1% cyfoethocaf y byd yn berchen ar 45% o gyfoeth y byd, tra bo bron i chwarter y bobl yma yng Nghymru'n byw mewn tloidi. Wrth i'r economi ehangu, felly hefyd y galw am yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu ar gyfer hyn. Mae cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl o fyw mewn byd o anghydraddoldeb llwm a banc adnoddau naturiol gwag.


Yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw yw na fedrwc chi ddod o hyd i unrhyw son am Werth Ychwanegol Gros (GYC) neu Gynnyrch Domestig Gros yn niffiniad Cymreig o ffyniant; mae ein

gweledigaeth ni o ffyniant yn mesur yr hyn sydd o bwys. O fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nid yw llesiant economaidd yn cael blaenoriaeth dros lesiant amgylcheddol, cymdeithasol, neu ddiwylliannol. Ein nod o Gymru lewyrchus yw un lle mae pobl yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a darganfod gwaith gweddus, lle rydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd deg a lleol, lle mae'r economi sylfaenol yn cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth leol, a lle'r ydym yn symud tuag at gymdeithas garbon isel.



Astudiaethau achos

Drwy'r holl ddogfen hon byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os byddwch yn gweld y symbol hwn.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Caffael nwyddau a gwasanaethau mewn dulliau sy'n cynorthwyo llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 1: Caffael Teg a Lleol](#))

Cynorthwyo arferion gwaith teg drwy gyflogaeth a gwasanaethau
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 2: Gwaith gweddus](#))

Cefnogi'r economi sylfaenol drwy gynhyrchu cyfoeth a darparu cyflogaeth
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 3: Economiau Lleol](#))

Galluogi cymdeithas garbon isel drwy gynorthwyo ynni cymunedol a lleihau allyriadau
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 4: Cynhyrchu Ynni Cymunedol](#))

Gweithio gydag eraill i gynorthwyo datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol
([Gweler Taith tuag at Gymru lewyrchus pwnc 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol](#))

Cefnogi arloesedd i ddatblygu economi addas ar gyfer y dyfodol
([Pwnc taith ar arloesedd i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

Defnyddio adnoddau'n effeithlon, cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang
([Pwnc taith ar economi cylchol i'w archwilio yn y cyfnod nesaf](#))

Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn.

Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r fframwaith cyfreithiol a osodwyd gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i awdurdodau sy'n contractio i ystyried ymgorffori agweddau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol mewn manylebau, amodau contract a meini prawf dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn yr amgylchedd, effeithlonrwydd ynni, brwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, hybu arloesedd, a chyflogaeth a chynhwysedd cymdeithasol.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:

- [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.](#)
- [Arweiniad ar agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol.](#)

Mae'r rheoliadau contractau cyhoeddus canlynol yn arbennig o berthnasol i'r pwnc caffael teg a lleol:

- **Mae Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn (rheoliadau 74 i 770):** yn cynnig i gomisiynwyr sydd eisiau macsimeiddio manteision lleol caffael i deilwra'r modd y maent yn gweithredu'r broses gaffael ar gyfer rhai gwasanaethau, er mwyn diwallu anghenion darparwyr lleol.
- **Mae Contractau neilltuedig (Rheoliad 77):** wedi eu dylunio i helpu sefydliadau'r trydydd sector i sefydlu eu hunain a chystadlu i ddarparu gwasanaethau ag iddynt ddimensiwn iechyd, cymdeithasol, addysgol neu ddiwylliannol.
- **Contractau neilltuedig 20 – (1)** Gall awdurdodau contractio (a) gadw'r hawl i gyfranogi mewn gweithdrefnau caffael cyhoeddus weithdai gwarchodol a gweithredwyr economaidd â'u bryd ar integreiddio'n gymdeithasol a phroffesiynol bobl anabl a phobl o dan anfantais, neu (b) drefnu i'r fath gontractau gael eu perfformio yng nghyd-destun rhaglenni cyflogaeth warchodol, ar yr amod bod o leiaf 30% o weithwyr, gweithredwyr economaidd neu

raglenni'r gweithdai hynny yn weithwyr anabl neu'n rhai o dan anfantais.

- **Rheoliad 40 (1):** Cyn cychwyn gweithdrefn gaffael, gall awdurdodau sy'n contractio gynnal ymgynghoriad marchnad gyda'r bwriad o baratoi'r caffael a rhoi gwybod i weithredwyr economaidd am eu cynlluniau a'u gofynion caffael.
- **Rheoliad 40 (3):** 'Gellir defnyddio'r fath gyngor wrth gynllunio ac arwain y weithdrefn gaffael...'
- **Ennyn ymgyfraniad defnyddwyr gwasanaethau: Rheoliad 76 (8)** '...gall awdurdodau contractio gadw mewn golwg unrhyw ystyriaethau perthnasol, yn cynnwys '...anghenion penodol categorïau gwahanol o ddefnyddwyr; (ac) ennyn ymgyfraniad defnyddwyr a'u grymuso.'




Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisïau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St.'

Galluogwyr

Bydd gwireddu'r nod yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol mewn contractau'n cael eu monitro – er enghraifft manteision cymunedol.
- Pan ofynnir i fusnesau adrodd ar effeithiau ehangach, yn hytrach nag allbynnau a chanlyniadau rhifiadol yn unig.
- Pan fydd yna ymgysylltu ystyrlon busnesau lleol yn natblygiad cynlluniau economaidd lleol.
- Pan fydd yna amgylchedd polisi sy'n cynorthwyo economi sylfaenol ac ymagweddau carbon isel i ddod yn rhan o'r brif ffrwd.
- Pan fydd datblygu gweithluoedd medrus, amlddisgyblaethol yn flaenoriaeth ym mhob sefydliad.



Analluogwyr

Bydd gwireddu'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- Pan ganfyddir bod twf economaidd yn ymwneud yn unig â Chynnyrch Domestig Gros neu Werth Ychwanegol Gros.
- Pan fydd sefydliadau'n gweithio mewn seilos, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer ymagweddau cydgysylltiedig a meddylfryd arloesol.
- Pan fydd adnoddau naturiol yn cael eu masnachu a'u gwerthu, heb ystyried effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Pan fydd technoleg carbon isel yn cael ei weld fel rhywbeth costus sy'n creu risg uchel.
- Pan fydd sefydliadau'n methu annog diwylliant o waith gweddu, er enghraifft drwy fynd i'r afael â bylchau cyflog rhwng y rhywiau neu gontractau dim-oriau.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Lewyrchus

2: Gwaith gweddus

Sbarduno arferion sy'n caniatáu i bobl fanteisio ar gyfoeth a gynhrychir drwy sicrhau gwaith gweddus

Diffinio'r mater

Darganfu adroddiad diweddar gan Gwmnïau Cydweithredol yn y DU bod contractau heb oriau wedi cynyddu ddeg gwaith i dros 800,000 yn y DU. Mae mathau o waith hunangyflogedig wedi cynyddu o 1 miliwn i dros 4.8 miliwn ac, ar 15% o'r gweithlu, maent ar eu lefel uchaf mewn deugain mlynedd. Mae pobl sy'n hunangyflogedig yn ennill £3.80 yr awr yn llai na'r gweithiwr cyffredin. Mae tueddiad i weithwyr hunangyflogedig newydd, a'r rhai hynny ar gontractau heb oriau ennill

cyflogau isel, amddiffyniad cyfreithiol cyfyng, ansicrwydd uchel, mynediad cyfyng i ddiogelwch cymdeithasol, hawl cyfyng i bensiwn a chyd-gynrychiolaeth cyfyng.

Y Cyflog Byw yn y DU ar hyn o bryd yw £9 yr awr. Darganfu ymchwil newydd fod £809 miliwn mewn cyflogau ychwanegol wedi mynd i weithwyr cyflog isel oherwydd y mudiad Cyflog Byw. Darganfu ymchwil diweddar gan y Sefydliad Smith bod

sefyllfa lle mae cyflogwyr yn talu Cyflog Byw i'w staff nid yn unig o fudd i'r gweithwyr cyflog isel, ond hefyd yn helpu i gynyddu cynhyrchiant lleol a sbarduno twf cynhwysol.

Gall gwaith gweddus helpu i wireddu economi cryfach, mwy modern a mwy cynhwysol. Mae'n cyfrannu at dwf cenedlaethol a ffyniant ac yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan leihau tlodi a hyrwyddo llesiant. Ym Mawrth 2019, cyhoeddodd y Comisiwn Gwaith Teg 'Gwaith Teg i Gymru' sy'n diffinio gwaith teg, yn nodi'r dulliau o'i hyrwyddo, ac yn cynnwys argymhellion i helpu i'w gyflawni yng Nghymru.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru fwy cyfartal Pwnc 1: Gwaith teg

Gwneud **Newidiadau** Syml

Ystyriwch sut y gallwch fabwysiadu'r diffiniad a nodweddion gwaith teg a amlinellir yn [Gwaith Teg Cymru](#) (Mawrth 2019) gan y Comisiwn Gwaith Teg.

Ystyriwch sut fyddwch chi'n hybu gwaith teg a gweddus pan yn gosod eich amcanion corfforaethol. Os yr ydych yn gorff cyhoeddus, rhain fydd eich amcanion llesiant.

Talu'r Cyflog Byw.

E.e. <https://youtu.be/ohanyjkbT4>



E.e. Gweithiodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Cynon Taf** gydag undebau llafur i gyflwyno'n raddol y cyflog byw i'w cyflogeion. Maent yn awr yn ystyried sut y gallant adeiladu ar hyn i ddod yn sefydliad Cyflog Teg achrededig.

Cynorthwywch aelodaeth o undebau llafur a sicrhewch ymgyfraniad undebau yn y modd yr ydych yn ymgynghori â staff.

Sicrhewch nad yw unigolion sy'n chwilio am fynediad i waith o dan anfantais oherwydd rhyw, hil, anabled, rhywioldeb nac unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill.

Cynigiwch contractau teg a chyflogaeth sefydlog i staff ledled eich sefydliad, er enghraifft drwy fynd i'r afael â bylchau mewn cyflog rhwng y rhywiau, neu gontractau dim oriau ar draws eich sefydliad.

Rhowch i bob gweithiwr, o'r diwrnod cyntaf un ac yn flynyddol, ddatganiad hawdd ei ddeall am eu statws o safbwynt contract, termau ac amodau'r penodiad a hawliau cyflogaeth, a gwybodaeth am sut i chwilio am gyngor a gwneud iawn am gamweddau os oes angen (yn cynnwys sut i gysylltu ag undeb llafur).

Sicrhewch eich bod yn monitro safonau cyflogaeth.

Gwneud **Newidiadau** Syml

Glynwch wrth god arfer **Llywodraeth Cymru** ar gyflogaeth foesebol yn y gadwyn gyflenwi.

Sicrhewch bod unrhyw ddefnydd o contractau cyflogaeth ansicr yn amddiffyn hawliau gweithwyr yn ddigonol.

Adolygwch arferion recriwtio i sicrhau tegwch a thryloywder mewn tâl, termau ac amodau a chydaddoldeb canlyniad. Dylid canolbwyntio'n arbennig ar unrhyw wahaniaethau rhwng recriwtio mewnol ac allanol ac adolygu prosesau recriwtio drwy lens rhyng-adrannol fel y gellir gwella amrywiaeth y gweithlu.

Sicrhewch fod eich holl swyddi ar gael ar sail rhan amser neu sail rhannu swydd.

Defnyddiwch ddata sydd ar gael i ddeall tueddiadau gweithlu'r dyfodol a sicrhau fod eich staff yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu sgiliau addas ar gyfer y dyfodol (gweler hefyd Pwnc 5: Sgiliau ar gyfer y dyfodol).

Sicrhewch fod yna gyfle teg i staff drwy ddarpariaeth polisiau'r gweithle ar gyfer cynnydd, hyfforddiant a datblygiad.

Galluogwch weithwyr ar gyflog isel i gyrchu hyfforddiant a datblygu cyfleoedd, gan weithio gyda nhw i oresgyn rhwystrau i gynnydd, megis patrymau sifft.

Hyrwyddwch a chymerwch ran mewn ddyddiau ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd sy'n adlewyrchu ymrwymiad i waith teg megis [Wythnos Cyflog Byw](#).

Bod Yn Fwy Anturus

Codwch ymwybyddiaeth

ymhlith eich staff o hawliau perthnasol i waith teg.

Grymuswch staff

i orfodi eu hawliau drwy sicrhau fod gwybodaeth ar gael yn hawdd. Er enghraifft, drwy ariannu cymorth i wasanaethau ymgynghori a chymorth.

Sefydlwch drefniadau

i sicrhau fod staff yn teimlo'n hyderus ac yn abl i fod yn 'chwythwyr chwiban' os yr ydynt yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.

Cychwynwch a chynorthwywch Fforymau Gwaith Teg.

Gall y rhain fod yn lleol, rhanbarthol neu seiliedig ar sector, a helpwch i nodi a chytuno ar nodweddion cyffredinol gwaith teg, hwyluso cydweithio a dysgu a rennir, datblygu safonau, asesu sut mae'r safonau hyn yn cael eu diwallu, teilwra ymyriadau penodol i hyrwyddo gwaith teg, a hybu ymwybyddiaeth a pherchnogaeth o'r agenda gwaith teg.

Sefydlwch y Cyflog Byw drwy ddod yn Gyflogwr [Cyflog Byw](#).

Anogwch arfer da mewn

cadwyni cyflenwi drwy hybu a glynu wrth yr arfer da o ddarparu gwaith gweddus o fewn eich sefydliad chi eich hunan.

Ystyriwch eich defnydd chi eich hun o weithwyr mewn economi "gig" o fewn eich cadwyni cyflenwi a'ch arferion o ddydd i ddydd, yn arbennig lle nad oes cyfiawnhad penodol dros ddefnyddio contractau dim oriau neu lle cânt eu defnyddio i osgoi'r amddiffyniadau a roddir gan gyfraith cyflogaeth.

E.e. [Nodweddion y rhai hynny yn yr economi "gig"](#)

Bod Yn Fwy Anturus

Ystyriwch sut y gallwch gynorthwyo [gweithwyr llawrydd](#) a'r rhai yn yr economi "gig" i ddod at ei gilydd a ffurfio cwmnïau cydweithredol sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau a'r ansicrwydd a wynebir gan y gweithwyr hyn.

E.e. Ffurfiwyd [Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych](#) pan roedd yr awdurdod lleol yn ystyried dilwu dysgu cerdd mewn ysgolion.

E.e. Mae [IndyCube](#) hefyd yn gweithio gydag Undeb Cymunedol I roi cymorth i weithwyr ilawrydd.

Targedwch brentisiaethau a rhaglenni cyflogaeth eraill at grwpiau a dan-gynrychiolir. Er enghraifft, pobl anabl – ar hyn o bryd dim ond 1% o brentisiaethau yng Nghymru a gafodd eu llenwi gan bobl anabl. Gweler offer ac astudiaethau achos yn y [Cynllun Gweithredu Prentisiaethau](#).

ee

ee

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cenedlaethol a chydweithredol

Anogwch waith teg a helpwch i feithrin diwylliant o waith teg o fewn a thu hwnt i Gymru.

Sicrhewch fod yna fecanwaith i arbenigwyr annibynnol i ddarparu capasiti ychwanegol ac arbenigedd i wneud cynnydd ar waith teg.

Sefydlwch drefniadau ariannol i ddwyn yn eu blaen fentrau penodol, wedi eu cyfyngu gan amser, sy'n gwneud cyfraniad clir i waith teg.

Anogwch gyrff cyhoeddus i arwain y ffordd ar waith teg a chyfathrebu'n rhagweithiol ar eu cynnydd.

Mae eich prosiectau seilwaith a buddsoddiadau cyfalaf mawr yn cyfrannu i amcanion llesiant lleol a rhanbarthol yn ogystal â gwireddu amcanion economaidd a chymdeithasol ehangach.

Mae ffocws a blaenoriaethau contractau'r sector cyhoeddus yn symud tuag at werth cymdeithasol yn cynnwys gwaith teg.

Cynorthwywch god arfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesebol yn y gadwyn gyflenwi drwy ddeddfwriaeth, a sicrhewch ei fod yn dod yn orfodol ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Mae ymuno â'r cod arfer ar gyflogaeth foesebol yn ofynnol i sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Mae polisi cenedlaethol yn galluogi partneriaethau cymdeithasol i fod ar dir mwy sefydlog, statudol.

Mae gwybodaeth am sefydliadau nad ydynt wedi gwneud cynnydd tuag at ddiwylliant gwaith teg ar gael i'r cyhoedd.

Perchnogi'r **Uchelgais**

Gweithredu sefydliadol

Meddylwch yn strategol

am dâl isel a mynd i'r afael â chyflogau isel mewn dogfennau corfforaethol a strategaethau.

Sefydlwch **Gyflog Byw** drwy ddod yn sefydliad Cyflog Byw.

E.e. Mae **Caerdydd** ar hyn o bryd yn dod yn Ddinas Cyflog Byw.

Sefydlwch siarteri cyfrifoldeb cymdeithasol

gan osod egwyddorion arweiniol, yn cynnwys gwaith teg, y mae cyrff cyhoeddus yn disgwyl i gontractwyr eu harwyddo.

E.e. Amcan **Siarter Busnes Birmingham** ar gyfer **Cyfrifoldeb Cymdeithasol** yw hybu'r economi lleol drwy gynorthwyo'r gadwyn gyflenwi leol, creu cyfleoedd swyddi a sicrhau fod gweithwyr yn cael cyflog teg. Rhaid i sefydliadau sy'n ceisio am gontractau gwerth uwch gyda'r Cyngor ymuno â'r Siarter.

Enghreifftiau ac adnoddau eraill



Cyflog Byw:

<https://www.livingwage.org.uk/become-a-living-wage-employer>



Cwmnïau Cydweithredol ar gyfer gweithwyr llawrydd:

<https://www.uk.coop/resources/working-together-trade-union-and-co-operative-innovations-precarious-work>



Siarteri cyflogaeth: astudiaethau achos o'r DU:

<http://hummedia.manchester.ac.uk/institutes/mui/igau/briefings/IGAU-Employment-Case-studies.pdf>



Cyflog Byw a rôl llywodraeth leol:

<https://cles.org.uk/wp-content/uploads/2016/11/Living-wage-and-the-role-of-local-government.pdf>



Cydraddoldeb rhwng y rhywiau a thwf cynhwysol: Polisiâu economaidd i ennill datblygu cynaliadwy:

<https://www.unwomen.org/en/digital-library/publications/2019/01/gender-equality-and-inclusive-growth>